# Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mawrth 10fed 2026 yn Neuadd Maesywaen Yn bresennol oedd Rhys Richards (cadeirydd), Arwel Davies, Euros Puw, Rhys Jones. Geraint Jones, Gwynfryn Williams, Huw Edwards, Geraint Thomas a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Huw Charles a'r Cyng. Elwyn Edwards.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Chwefror a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Nodwyd y buddiant perthnasol gyda'r ceisiadau ariannol.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
i) Cyflwr y ffordd i gyfeiriad Tŷ Du a Chwm Tylo, Parc – cafwyd cadarnhad fod Cyngor Gwynedd wedi dod i gytundeb gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â thrwsio'r ffordd unwaith fyddant wedi gorffen cario deunydd i wneud ffordd newydd. Gofynnwyd i'r clerc atgoffa Cyngor Gwynedd fod angen trwsio'r twll mawr arall a oedd wedi ymddangos ger Preswylfa.

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.
i) Cronfa Cefnogi Cynghorau Cymuned Gwynedd 2026. Trafodwyd syniadau a fyddai'n bosib ceisio arian am a chytunwyd i drafod gyda'r trigolion lleol.
ii) Holiadur Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

b) Cyfoeth Naturiol Cymru.
i) Canolfan Tryweryn – Cyfle Datblygu.

c) Ymgyrch Gwarchod Enwau Lleoedd Cymraeg.
i) Polisi'r Arolwg Ordnans ar eu defnydd o enwau lleoedd ar eu mapiau o Gymru. Cytunwyd i gefnogi eu cais i ysgrifennu at Arolwg Ordnans yn gofyn iddynt newid eu polisi a pheidio gosod enwau Saesneg yn unig ar leoedd sydd ag enwau Cymraeg hanesyddol,

**v) Ceisiadau Cynllunio.**
Ni chyflwynwyd unrhyw gais.

**vi) Materion Ariannol**
a) Archwilio Cymru – Cwblhau archwiliad 2024-25.
Derbyniwyd yr Adroddiad yn nôl gan yr archwilwyr allanol gyda'r cadarnhad ei fod yn gywir a bod dim materion yn achosi pryder iddynt. Cafwyd cadarnhad gan y Clerc ei bod wedi arddangos y 'Rhybudd o ddiwedd yr archwiliad' yn y mannau perthnasol.

b) Penodi Archwiliwr Mewnol.
Cytunwyd i benodi Uned Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd i archwilio'r cyfrifon eto eleni.

c) Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2026-27.
Nodwyd argymhellion a'r oblygiadau i'r Cyngor a'r cynghorwyr. Trafodwyd y gydnabyddiaeth ddewisol a chytunwyd nad oedd y cynghorwyr yn dymuno hawlio'r lwfans presenoldeb na unrhyw daliadau ar gyfer cyflawni'r swyddi Cadeirydd, Is-gadeirydd ac nid oedd unrhyw gyfrifoldebau penodol amlwg iddynt. Cytunwyd



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….

y dylid ad-dalu'r cynghorwyr am unrhyw gostau teithio ayyb wrth fynychu cyfarfodydd ar ran y Cyngor. Nodwyd y gydnabyddiaeth a oedd yn orfodol, y taliad costau ychwanegol a chostau gofal. Atgoffwyd y cynghorwyr fod angen iddynt hysbysu'r Cyngor drwy lythyr os nad oeddynt yn dymuno derbyn y taliadau penodol yma

ch) Taliadau.
Cytunwyd i dalu'r canlynol:-
1) Cyflog a chostau'r clerc (Ionawr i Fawrth)
2) CTHEM (TWE)
3) Un Llais Cymru (tal aelodaeth)
4) Neuadd y Parc (llogi)
5) Neuadd y Maesywaen (llogi)
6) Cwmni Pum Plwy Penllyn (llwybrau)

Cytunwyd hefyd i gymeradwyo talu anfoneb Archwilio Cymru (archwiliad allanol) pan fydd y clerc yn ei dderbyn.

d) Ceisiadau ariannol.
Cytunwyd i gyfrannau i:-

| | |
|---|---|
| 1) Neuadd Y Parc | £150 (Euros Puw yn datgan buddiant) |
| 2) Neuadd Maesywaen | £150 |
| 3) Cylch Meithrin Garn Bach Tryweryn | £150 |
| 4) Ysgol Bro Tryweryn | £150 |
| 5) Cronfa Ysgol Godre'r Berwyn | £75 |
| 6) Sioe Ardal Maesywaen | £50 (Rhys Jones yn datgan buddiant) |
| 7) CFFI Meirionnydd | £125 |
| 8) Eisteddfod Urdd Cylch Meirionnydd | £25 |
| 9) Cantref | £25 |
| 10) Ambiwlans Awyr Cymru | £50 |
| 11) Tŷ'r Eos | £50 |
| 12) Tŷ Gobaith | £25 |
| 13) Macmillan | £25 |
| 14) Cwmni Pum Plwy Penllyn – Y Cyfnod | £50 |
| 15) Llen y Llannau | £25 |
| 16) Marie Curie | £25 |

**vii) Unrhyw Fater Arall.**

a) Cytunwyd i anfon y cwynion isod i'r adrannau perthnasol.
i) Cais i docio'r gordyfiant o gwmpas yr arwyddion mae'r peiriannau yn ei fethu wrth dorri'r gwrychoedd. Erbyn canol yr haf mae'r gordyfiant yma yn cuddio'r arwyddion
ii) Coed llarwydd di marw ac yn beryg o ddisgyn ger Nant Ddu, Arenig.

## Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mai 12fed am 8.00 y.h. yn Neuadd Maesywaen.



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….